



30 Ebrill 2013

Annwyl Gyfaill

Ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon

Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi penderfynu cynnal ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Bwriad y Pwyllgor yw canolbwyntio ar chwaraeon, ond o fewn cyd-destun ehangach ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn fwy cyffredinol.

Y cylch gorchwyl

Bydd y meysydd a ganlyn yn cael eu harchwilio'n fwy manwl:

- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru yn cyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y *Rhaglen Lywodraethu*, yn y cynllun gweithredu *Creu Cymru Egniol* ac yn *Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru* o ran lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon;
- I ba raddau y mae setiau data ac ystadegau ar gael ar gyfer mesur lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, yn enwedig rhai a gaiff eu dadgyfuno yn ôl meysydd cydraddoldeb a grwpiau economaidd-gymdeithasol;
- Y cyfleoedd a'r rhwystrau y mae gwahanol grwpiau o bobl yn eu hwynebu o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, gan gynnwys yn ôl meysydd cydraddoldeb a grwpiau economaidd-gymdeithasol;
- Beth yw'r cysylltiadau rhwng rhaglenni ar gyfer datblygu chwaraeon yng Nghymru a mentrau eraill Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol; ac

- Effaith y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, Cwpan Ryder a digwyddiadau proffil uchel a llwyddiannau eraill ym maes chwaraeon yng Nghymru ar lefelau cyfranogi yng Nghymru.

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg gan unigolion a sefydliadau, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phump ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl fel y'i nodir uchod.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig (ni ddylai fod ar ffurf dogfen PDF yn ddelfrydol) i Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **Dydd Gwener 31 Mai 2013**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr adolygiad. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Datgelu Gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth yr ystyrir ei fod yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



Christine Chapman ac, Cadeirydd